------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6222

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 15

(09.00-12.00) (Tudalennau 1 - 27)

Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau

Angharad Thomas Richards, Pennaeth Tîm Polisi Llywodraeth Leol ac Etholiadau

Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwyr Democratiaeth Llywodraeth Leol

Cath Wyatt, Rheolwr Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

## 3 Papurau i'w nodi

(12.00-12.05) (Tudalen 28)

**3.1 Gohebiaeth gan Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru ynghylch Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - 16 Ionawr 2020**

(Tudalen 29)

**3.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Cyllid a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch gwybodaeth ychwanegol am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 - 21 Ionawr 2020**

(Tudalennau 30 - 37)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

3.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwybodaeth ychwanegol am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 - 21 Ionawr 2020

(Tudalennau 38 - 42)

3.4 Gohebiaeth gan Gymorth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymorth i Ferched Cymru ynghylch y Grant Cymorth Tai a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 - 22 Ionawr 2020

(Tudalen 43)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw ac o eitemau 1 a 2 o'r cyfarfod ar 6 Chwefror 2020.

(12.05)

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): trafod y dystiolaeth a'r materion allweddol.

(12.05-12.30)

## 6 Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): trafod yr amserlen ddrafft

(12.30) (Tudalennau 44 - 47)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**29 Ionawr 2020 – tudalen flaen papurau i'w nodi**

| **Papur rhif:** | **Mater o dan sylw** | **Oddi wrth** | **Cam gweithredu** |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-04-20 Papur 1 | Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Tai Pawb, CIH Cymru, Shelter Cymru | I'w nodi |
| ELGC(5)-04-20 Papur 2 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |
| ELGC(5)-04-20 Papur 3 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |
| ELGC(5)-04-20 Papur 4 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 | Cymorth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymorth i Ferched Cymru | I'w nodi |

**John Griffiths AM**
Chair – Equality, Communities and Local Government Committee
National Assembly for Wales

Via email to John.Griffiths@gov.wales

16 January 2020

Dear John,

We write to you collectively in your capacity as chair of the Equality, Communities and Local Government Committee following our recent joint response to the consultation on the Local Government and Elections (Wales) Bill 2019.

We refer specifically to our campaign on the right to adequate housing in Wales and

(i) note with gratitude your hosting of the launch of our feasibility report in June 2019, and
(ii) recognise and welcome your continued interest in the matter both at plenary and committee level.

You'll likely be aware that the matter of the right to adequate housing has been the subject of a number of questions and debates both in plenary and committee sessions over the past few months and we are pleased that support has been offered from across the political spectrum in the Assembly.

In particular, following discussions with both the Minister for Housing and Local Government, Julie James AM, and Counsel General and Brexit Minister, Jeremy Miles AM, we welcome the progress made to date in securing an element of the right to housing – a due regard – as part of the Local Government and Elections (Wales) Bill 2019.

It is our current understanding that the due regard duty is proposed as part of the Bill's statutory guidance. Though the Minister has herself stated that local authorities "will have to abide by it", we are strongly of the view that a due regard is best incorporated on the face of the Bill – as a free-standing provision of itself – in order that it is able to work to its maximum effect. We set out this case comprehensively in our joint consultation response and with the insight of Dr Simon Hoffman who authored our original feasibility report.

Furthermore – and more broadly on the full incorporation of the right to adequate housing - we note the Minister's response to the committee in October 2019 in which she referenced a "slide towards" such a right and a commitment to "move in that direction". We continue to make the case that the incorporation of the right to adequate housing in Wales would act as a catalyst for housing supply and resources on the basis of the full right being realised progressively over time.

To that end, we would welcome the opportunity to meet with you at your earliest convenience to discuss, in particular, the due regard element of the right to adequate housing and its placement in the Bill.

Yours sincerely,

Alicja Zalesinska, Tai Pawb    Matt Dicks, CIH Cymru    John Puzey, Shelter Cymru

*Enc. – Consultation response, Local Government and Elections (Wales) Bill 2019 on behalf of Tai Pawb, CIH Cymru and Shelter Cymru*

**Julie James AC**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

**Rebecca Evans AC**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**Jane Hutt AC**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

21 Ionawr 2020

Annwyl John

Diolch am y gwahoddiad i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 9 Ionawr i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2020-21. Yn ystod y broses graffu, gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch portffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gallwn gadarnhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y pwyntiau perthnasol.

Yn ogystal, bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Addysg yn ysgrifennu ar y cyd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cyflog a phensiynau athrawon. Mae'r llythyr yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a'r bwriad yw ei anfon at y ddau Bwyllgor yr wythnos yn cychwyn 20 Ionawr 2020.

Nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu yn sgil y sesiynau craffu ac rydym yn falch o gael darparu'r wybodaeth ganlynol mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gwybodaeth am y Boblogaeth**

Mae dros 25% o'r setliad i'w ddosbarthu ar sail amcanestyniadau neu amcangyfrifon o'r boblogaeth. Fel rhan o waith ystadegol ehangach, ac mewn ymateb i newidiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio amcanestyniadau 2017 (y bwriedid eu defnyddio i gyfrifo'r setliad) a chyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol 2018 yn hytrach. Byddai defnyddio ystadegau poblogaeth is-genedlaethol 2018 wedi newid yn sylweddol iawn sut y câi setliad llywodraeth leol ei ddosbarthu mewn cyfnod o flwyddyn.

Un o'r egwyddorion y tu ôl i'r gwaith ar fformiwla'r setliad yw'r angen i gefnogi sefydlogrwydd rhesymol cyllid awdurdodau lleol. Wedi ystyried nifer o opsiynau, argymhellodd yr Is-Grŵp Dosbarthu, er mai'r data poblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer setliad 2019-20 oedd amcanestyniadau poblogaeth 2014, y dylid defnyddio cyfartaledd amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer canol 2018 ac amcanestyniadau 2014 awdurdodau lleol ar gyfer setliad dros dro 2020-21. Cytunwyd y dylid gweithredu dros ddwy flynedd.

**Cyllid cyfalaf ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi datgarboneiddio**

Fel y trafodwyd yn y pwyllgor, mae yna becyn penodol o fwy na £140m i gefnogi datgarboneiddio a'r amgylchedd, sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys £1m i awdurdodau lleol ar gyfer cerbydau sbwriel allyriadau isel iawn, i ariannu'r gwahaniaeth rhwng cost cerbydau allyriadau isel iawn a chost cherbydau diesel, yn achos y cerbydau y mae angen eu newid yn 2020-21. Mae £7.9m ar gyfer cynghorau Caerdydd a Chaerffili i gefnogi gweithredu mesurau i sicrhau y cydymffurfir ar frys â chyfyngiadau deuocsid nitrogen. Fel rhan o'n nod ar gyfer fflyd o fysus dim allyriadau erbyn 2028, rydym yn cynnwys cyllid cyfalaf o £29m (£21.5m o gyfalaf traddodiadol a £7.5m o gyfalaf trafodion ariannol) yn 2020-21 tuag at ddarparu fflyd o fysus trydan, er mwyn hybu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau'r allyriadau carbon a helpu i wella ansawdd aer ar yr un pryd.

Caiff cyfanswm y grantiau cyfalaf sydd ar gael i awdurdodau lleol ei gyhoeddi fel rhan o'r setliad dros dro. Ar gyfer 2020-21, gan gynnwys y grant cyfalaf cyffredinol nad yw wedi'i neilltuo, bydd awdurdodau lleol yn derbyn dros £640m. Er bod yna rai dyraniadau ar gyfer datgarboneiddio yn benodol, fel y nodwyd uchod mae llawer o'r grantiau hyn yn cefnogi datgarboneiddio fel rhan o'u hamcanion ehangach. Un enghraifft o gysylltiad cryf â'r nod hwn yw'r £70m a ddyrennir ar gyfer rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, lle mae'n ofynnol i adeiladau newydd sicrhau graddfa ragorol BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu), a lle mae'n ofynnol i waith adnewyddu sylweddol sicrhau graddfa A Tystysgrif Perfformiad Ynni. Dyrennir £70m hefyd i gynlluniau sy'n ymwneud â theithio llesol a chynlluniau trafnidiaeth leol, y mae lleihau carbon yn un o'u prif amcanion.

Yn ogystal, bydd yr awdurdodau hynny sy'n dal i feddu ar stoc dai yn derbyn rhan o'r £200m i sicrhau ansawdd tai a'r grant tai cymdeithasol. Unwaith eto, mae lleihau ôl-troed carbon tai yn un o brif amcanion hwnnw.

## Rhaglen Diogelwch Adeiladau

Nid un gronfa yw'r rhaglen Diogelwch Adeiladau; bydd y cyllid refeniw o £0.5 miliwn yn cefnogi ystod o weithgareddau sy'n helpu i ddatblygu polisi diogelwch adeiladau a chamau diwygio deddfwriaethol tymor hirach. Byddwn yn tynnu ynghyd arbenigedd o faes iechyd yr amgylchedd, rheoli adeiladu a gwasanaethau tân ac achub i roi cyngor a chanllawiau mewn perthynas ag adeiladau preswyl uchel a risg uchel yng Nghymru.

## Safonau Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Addasu

Cyflwynwyd y Safonau Gwasanaeth ym mis Ebrill 2019 ac nid ydynt eto wedi bod yn weithredol am 12 mis. Nid yw'n bosibl darparu sylw cywir ar hyn o bryd, felly, am y ffordd y maent wedi dylanwadu ar wasanaethau. Caiff yr ail adroddiad casglu data ei gyhoeddi cyn hir (Ionawr). Mae data'r adroddiad cyntaf yn llywio polisi Llywodraeth Cymru ac roeddent yn ddylanwadol yn ein penderfyniad i gomisiynu adolygiad o'r dyraniadau cyllid ar gyfer addasiadau tai, ac i ba raddau y maent yn adlewyrchu'r anghenion o ran addasu tai. Disgwylir canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yn haf 2020.

Dylem dalu teyrnged i waith asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Mae'r cyllid a ddarparwn ar gyfer cymhorthion ac addasiadau yn parhau i weddnewid ansawdd bywyd oedolion bregus a gefnogir o dan y rhaglen.

## Eiddo Gwag

Caiff y dyraniad o £10m o Gyfalaf Trafodion Ariannol ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi ei ddefnyddio i adfer adeiladau gwag ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae'r cyllid hwn yn rhan o becyn cyffredinol sydd ar gael i awdurdodau lleol i gymell perchnogion eiddo naill ai i adfer eu heiddo er mwyn gallu ei ddefnyddio neu, fel mesur ataliol, i gadw adeiladau rhag mynd yn wag yn y lle cyntaf. Mae'r benthyciad wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr awdurdodau hynny sydd wedi cael dyraniad hyd yma. Bydd y ddarpariaeth ychwanegol hon yn galluogi Llywodraeth Cymru i ehangu'r cynnig i'r awdurdodau hynny nad ydynt yn cael y dyraniad er mwyn ehangu'r opsiynau sydd ar gael iddynt wrth negodi â pherchnogion eiddo gwag. Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud yn benodol ag argymhelliad 9, a bydd yn rhan o ddarpariaeth cymorth ehangach.

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i ddiwygio Deddf 2016 cyn ei gweithredu, er mwyn cynyddu sicrwydd deiliadaeth o fewn y sector rhentu preifat. Yn amodol ar basio'r Bil yn y Cynulliad i wneud y diwygiadau angenrheidiol i Ddeddf 2016, rydym yn disgwyl i'r Ddeddf gael ei gweithredu cyn diwedd y tymor Cynulliad hwn.

Bydd angen diweddaru systemau TG y llysoedd, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi nodi y bydd hyn yn costio hyd at £500,000 i Lywodraeth Cymru. Mae fy swyddogion a'u cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wrthi'n cyfrifo'r union gost. Gallai hyd at £25,000 o'r gwariant hwn fod yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Yn ogystal â chostau staff, bydd yna gostau hefyd sy'n

ymwneud â chyfathrebu, hyfforddiant a datblygu, ynghyd â gwerthuso. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf 2016, mae'r rhain yn dod i £140,000 yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf, £65,000 yn ystod yr ail flwyddyn, a £35,000 yn ystod y drydedd flwyddyn.

**Cynllun Gwella'r Gyllideb**

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gwella'r broses gyllidebol flynyddol dros y 5 mlynedd nesaf, gan gynnwys cerrig milltir tymor byr a thymor canolig.

Pwrpas y Cynllun yw canolbwyntio ar wella'r gyllideb a'r prosesau cysylltiedig (ee mewn perthynas â pholisi treth) sy'n cefnogi'r penderfyniadau cyllidebol a wneir gan Weinidogion. Yn y Cyllidebau Drafft a Therfynol, felly, y caiff y penderfyniadau eu cofnodi o hyd. Nod y Cynllun yw dangos y gwelliannau o ran *sut* caiff y penderfyniadau eu gwneud.

Caiff y Cynllun ei fireinio a'i ddiweddaru bob blwyddyn, a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft flynyddol, i gydnabod y ffaith bod hyrwyddo a chynnal newid tymor hirach yn waith parhaus. Bydd hyn yn golygu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a gymerwyd ers i'r cynllun gael ei gyhoeddi ddiwethaf, a sut y mae hyn wedi dylanwadu ar y camau y byddwn yn eu cymryd dros y 5 mlynedd nesaf.

**Cyhoeddi asesiadau effaith**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud penderfyniad terfynol o ran argymhelliad y cydbwyllgorau ynghylch cyhoeddi pob asesiad effaith unigol mewn un man pan fydd yr adolygiad cynhwysfawr o'n dull gweithredu wedi'i gwblhau.

Eleni, am y tro cyntaf, rydym wedi cyhoeddi casgliad o holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Cynulliad ynghylch dyraniadau o fewn pob prif grŵp gwariant, sy'n cynnwys ystyriaethau o ran effeithiau.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n dull o asesu effaith ac yn ei ddatblygu, ar sail gwell dealltwriaeth o effaith ein polisïau ar gymunedau a'u hamgylchedd. Fel rhan o'r adolygiad hwn, ymchwilir i ddulliau digidol a allai ei gwneud yn bosibl cyhoeddi asesiadau effaith mewn un man canolog.

Daw'r adolygiad i ben erbyn haf 2020, pan gaiff y canfyddiadau a'r argymhellion eu hystyried a phan ddechreuir datblygu, profi a gweithredu dull newydd fesul cam. Pan fydd yr adolygiad a'r gwaith datblygu wedi dod i ben, byddwn mewn sefyllfa i ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael er mwyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch cyhoeddi asesiadau effaith.

**Adroddiad Cam 2 Chwarae Teg - Gwneud nid Dweud**

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion **adroddiad Cam 2 Chwarae Teg**, Gwneud nid Dweud, mewn papurau Cabinet cyn trafodaeth y Cabinet ar adolygiad Llywodraeth Cymru o gydraddoldeb rhwng y rhywiau ar 4 Rhagfyr 2019.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ochr yn ochr â'r Gyllideb flynyddol, er mwyn gweithredu ein cynllun i wella sut rydym yn asesu effaith penderfyniadau cyllidebol i sicrhau gwell canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys ailedrych ar yr Asesiad o Effaith Integredig Strategol y gyllideb a'r dystiolaeth y mae'n seiliedig arni, a'i gwneud yn glir beth yw ei ddiben.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Chwarae Teg, a'n hymatebion ninnau, sy'n ymwneud yn benodol ag asesiadau effaith cyllidebol.

**Peilot Cyllidebu ar sail Rhyw 2007**

Mae'r gwaith hwn, a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru i ddechrau, wedi'n helpu i ddeall cymhlethdodau cynnal asesiadau ar sail rhyw ac asesiadau effaith eraill, a'r angen am ddata wedi'u dadgyfuno ar sail rhyw. Mae wedi cyfrannu hefyd at y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol, sydd wedi mynd yn fwy holistaidd ar sail y defnydd o dystiolaeth, gwerthusiadau ac asesiadau o effaith.

Mae hyn yn cynnwys y camau a gymerwyd pan mai ni oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad cynhwysfawr o effaith ein cynlluniau gwario ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'n cyllideb derfynol ar gyfer 2011-12, a chyfrannodd at ddull gweithredu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a sefydlwyd gyntaf yn 2015-16.

**Y diweddaraf gan Sesiwn Gyd-graffu 2019 Pwyllgorau Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a Chyllid**

Y llynedd, cynhaliodd Pwyllgorau Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a Chyllid sesiwn gyd-graffu ar y broses o asesu effaith y gyllideb. Dyma ymateb y pwyllgorau hyn i'r argymhellion. Diweddarwyd yr ymateb.

***Argymhelliad 1.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y broses asesiad effaith integredig strategol (yn fanylach na'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol), ei diben a'r canlyniadau disgwyliedig, yn dilyn ymgysylltu â'r comisiynwyr statudol perthnasol a chael eu cytundeb.*

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol o benderfyniadau gwario strategol 2020-21 yn y Gyllideb. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i ystyried sut y gallem wella'r ffordd rydym yn dyrannu adnoddau yn y tymor hirach, gan gynnwys ein dull o asesu effaith ein penderfyniadau cyllidebol. Mae hyn wedi llywio'r ffordd y datblygwyd ein cynllun i wella'r gyllideb, a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'r dogfennau drafft cyllidebol.

Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd â phob un o'n pedwar Comisiynydd statudol ac â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn yr hydref i glywed eu barn am feysydd blaenoriaeth y Gyllideb.

Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r comisiynwyr wrth inni barhau i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol yn y tymor hirach.

***Argymhelliad 2.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei holl asesiadau effaith unigol mewn man canolog, fel y gall yr asesiad effaith integredig strategol gyfeirio atynt wedyn.*

Rydym wedi darparu diweddariad ar y cam gweithredu uchod.

***Argymhelliad 3.*** *Bod Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd y Cynulliad hwn, yn comisiynu darn penodol o waith i ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag asesiadau effaith integredig strategol. Dylai ystyried materion fel cymhlethdod cymharol yr offeryn, sut y mae’r offeryn wedi mynd i’r afael â phwysoli hawliau ac effeithiau lluosog, a’r defnyddiau a wnaed o allbynnau’r offeryn (ond ni ddylid cyfyngu’r darn o waith i hyn).*

Mae un o ffrydiau gwaith Cynllun Gwella'r Gyllideb yn canolbwyntio ar asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Mae'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn cynnwys adolygu dull gweithredu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yn ogystal ag ystyried gwerth comisiynu gwaith pellach i lywio asesiadau o effaith penderfyniadau cyllidebol yn y dyfodol, er mwyn canfod sut y gellir adlewyrchu amrywiol ystyriaethau i ddatblygu dull cadarn a thryloyw o asesu effaith penderfyniadau gwariant.

***Argymhelliad 4.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn fframwaith ar gyfer yr asesiad effaith integredig strategol. O ystyried y meysydd y mae ein pwyllgorau’n canolbwyntio arnynt, credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i weithio gyda’r Comisiynydd Plant a’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu’n llawn ac yn effeithiol yn y broses asesu.*

Mae ein cynllun i wella'r gyllideb yn cynnwys cynlluniau i wella'r ffordd yr asesir effaith penderfyniadau cyllidebol. Wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r argymhellion hyn, gan gynnwys sut y gallwn barhau i gryfhau'r asesiad effaith integredig strategol, gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith.

Mae asesu effeithiau hefyd yn elfen allweddol o'n dull o lunio polisi, a chaiff ei wneud fel rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac adolygu polisi. Mae'r Asesiad Effaith Integredig cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol ystyried hawliau plant, ac fel y mae cyfraith Cymru yn ei fynnu, rhaid ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc pryd bynnag y defnyddiwn unrhyw bwerau i wneud penderfyniad.

Mae ein gwaith i adolygu prosesau gwneud polisi o fewn Llywodraeth Cymru yn cynnwys datblygu Fframwaith Gallu Polisi Llywodraeth Cymru sydd wedi ymchwilio i ystod o nodweddion, gan gynnwys y sgiliau sydd eu hangen i asesu effaith a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn croesawu ymgysylltiad parhaus ag ystod o randdeiliaid er mwyn gwella sut rydym yn asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Fel y mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ei nodi, ac fel rhan o'r gwaith presennol o adolygu a datblygu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith, byddwn yn ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant ac â'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ystyried sut rydym yn adlewyrchu cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein dull gweithredu.

***Argymhelliad 5.*** *Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgorau am ganlyniadau cyfarfod y comisiynwyr ym mis Tachwedd 2018, a pha bryd y rhagwelir y bydd yr ymchwil a gomisiynwyd ar integreiddio dyletswyddau yn cael ei chyhoeddi.*

Lansiwyd offeryn yr Asesiad Effaith Integredig ym mis Gorffennaf 2018, ac aeth swyddogion i Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Tachwedd 2018 i drafod yr offeryn. Yn y cyfarfod, mynegwyd pryderon gan rai aelodau y gallai gweithredu mewn ffordd integredig leihau'r ystyriaeth a roddir i effaith. Cytunwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ymhellach â'r Panel Cynghori wrth adolygu offeryn yr Asesiad Effaith Integredig. Ymgysylltir â Chomisynydd y Gymraeg, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth adolygu a datblygu ein dull o asesu effaith, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill.

Fel y nodwyd uchod, daw'r adolygiad i ben erbyn haf 2020. Caiff yr argymhellion eu hystyried, a dechreuir datblygu, profi a gweithredu dull newydd fesul cam.

**Asesiad Effaith Integredig Strategol**

Gallwn gadarnhau bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb yn cael ei baratoi gan swyddogion cyllid, gan ddefnyddio tystiolaeth o bob un o adrannau'r Llywodraeth er mwyn darparu asesiad strategol o'r gyllideb gyfan. Caiff ei gymeradwyo gan y Swyddog Cyllid ar ran holl Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion eraill yn gyfrifol am sicrhau bod effaith eu polisïau a'u cynigion yn y Gyllideb ddrafft wedi'i hystyried. Wrth ystyried effaith polisïau a chynigion cyllidebol unigol, nod offeryn yr Asesiad Effaith Integredig yw ei gwneud yn bosibl ystyried cynigion polisi mewn ffordd fwy integredig a hwyluso'r gwaith hwnnw. Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy'r Asesiadau Effaith Integredig yn sail, yn ei thro, i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn gyfrifol am gydraddoldeb a hawliau dynol, ac am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff cydraddoldeb, hawliau dynol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a phenderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig cofio mai nod offeryn yr Asesiad Effaith Integredig yw rhoi arweiniad wrth ddatblygu polisi, fel bod Gweinidogion Cymru, pan wneir dewisiadau ynghylch sut i weithredu, yn ymwybodol o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl. Mecanwaith i roi sicrwydd i Weinidogion Cymru yw'r offeryn, felly, fod pob ystyriaeth gyfreithiol a pholisi yn cael sylw yn y broses bolisi.

Hyderwn y bydd yr ymatebion hyn o fudd ichi i'ch galluogi i gwblhau'r broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21.

Yn gywir,

**Julie James AC**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Rebecca Evans AC**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd

**Jane Hutt AC**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

# Eitem 3.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/0208/20

John Griffiths AM
Cadeirydd Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Ionawr 2020

Annwyl John,

Cyfeiriaf at eich cais imi roi gwybodaeth am bwyntiau gweithredu a godwyd yn sesiwn Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 9 Ionawr 2020. Gweler fy ymateb isod mewn perthynas â'r materion hynny sy'n dod o dan fy nghylch gwaith fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Sut yr ymdrinnir â'r anghysondeb mewn cyflogau, telerau ac amodau a'r statws rhwng staff gofal/gwasanaethau cymdeithasol a gyflogir yn y GIG a'r rhai hynny mewn awdurdodau lleol; a pha gamau gweithredu eraill a gaiff eu cymryd i wella amodau gwaith ac ansawdd y gwaith ar gyfer staff cyflogedig awdurdodau lleol yn y sector gofal/gwasanaethau cymdeithasol**

Rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng cyflogau llywodraeth leol a'r GIG ar gyfer rhai gweithwyr. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi bod pecynnau swyddi'n cynnwys telerau ac amodau gwahanol y tu hwnt i'r cyflog.

Mae recriwtio a chadw yn her ym mhob rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol a dyma pam rydym yn ystyried sut y gallwn wella'r telerau ac amodau ar draws y sector.

Er enghraifft, yn sgil argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg y llynedd, rydym yn cymryd camau i sefydlu Fforwm Gwaith Teg yn y sector Gofal Cymdeithasol. Byddwn yn ystyried yn ofalus ganlyniad ein hymgyngoriadau diweddar ar bartneriaeth gymdeithasol, a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac rydym wedi bod yn ymgysylltu â phartneriaid yn y sector am y blaenoriaethau ar gyfer Fforwm Gwaith Teg.

Mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn siarad ag arweinwyr y sector am rôl fodern gweithiwr cymdeithasol, a chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar ôl cymhwyso sy'n rhan o becyn ehangach telerau ac amodau ar gyfer gwaith cymdeithasol.

**Gweithwyr Cymdeithasol**

Mae amrywiaeth o sefydliadau gwahanol yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol, a rhai sefydliadau annibynnol yn ogystal â'r GIG. Bydd y cyflogwyr hyn yn recriwtio ar gyfer graddfeydd cyflog gwahanol, er enghraifft mae CAFCASS Cymru yn recriwtio gweithwyr cymdeithasol ar raddfeydd cyflog y gwasanaeth sifil. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaethau o ran telerau ac amodau gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â phartneriaid megis BASW a Gofal Cymdeithasol Cymru i ystyried a oes angen cymryd camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac os felly, pa gamau. Er enghraifft, p'un a oes angen graddfa gyflog genedlaethol a fframwaith gyrfa, neu sut y gallai gwahaniaethau lleol gael eu hadlewyrchu.

**Therapyddion Galwedigaethol**
Mae cyflogau ar gyfer therapyddion galwedigaethol cyflogedig mewn llywodraeth leol yn wahanol i'r rhai hynny yn y GIG. Mae'r GIG yn defnyddio Agenda ar gyfer Newid ac mae gwerthusiad swyddi llywodraeth leol yn pennu'r cyflogau mewn awdurdodau lleol unigol. Yn draddodiadol, gallai cyflog cychwynnol gweithwyr proffesiynol newydd (newydd raddio) fod yn uwch mewn llywodraeth leol, ond wrth iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa byddai cyflog y GIG yn uwch.

Mae problemau wedi bod (mae Abertawe yn enghraifft) o ran timau ar y cyd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol sydd wedi'u cyflogi i wneud yr un swydd, lle mae'r staff a gyflogir gan y GIG yn cael eu talu mwy na'r staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol i wneud yr un gwaith. Mae hyn yn broblem ac fel arfer caiff ei datrys pan fydd staff anfodlon yn newid eu cyflogwr.

Fodd bynnag, nid yw'r telerau ac amodau ar gyfer unrhyw swydd yn gyfyngedig i'r cyflog. Gall oriau, lwfans gwyliau blynyddol, polisi gwaith hyblyg ac ati llywodraeth leol oll fod yn wahanol a bydd rhai therapyddion galwedigaethol yn derbyn rôl â graddfa gyflog is os bydd buddiannau eraill y swydd yn fwy addas iddynt. Mae'n well gan lawer o therapyddion galwedigaethol ym maes gofal cymdeithasol yr athroniaeth a'r dull o weithio ac mae hyn yn bwysicach na'r gwahaniaethau o ran cyflog.

Mae sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn ystyried bod eu rôl yn bwysig hefyd yn ymwneud â rhoi'r ymdeimlad o effaith ac effeithiolrwydd. Felly, mae angen hefyd ystyried gwaith rheoli a chymorth da a'r gallu (grymuso) i gyflawni eu hymyriadau hyd at frig y 'drwydded' broffesiynol, a gall gyfrannu mwy at rywun yn ystyried ei swydd fel dewis yrfa cadarnhaol iawn y tu hwnt i gymhariaeth gyflog syml.

**Sut mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r cynnydd yn y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gael ei ddefnyddio a beth yw'r canlyniadau a ddymunir**

Mae'r cynnydd yn y grant hwn yn ystod 2020-21 yn adlewyrchu'r pwysau cynyddol sy'n wynebu'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cynyddu'r cyflog byw cenedlaethol.

Rydym wedi ymateb i'r pwysau y mae llywodraeth leol wedi'u codi mewn perthynas â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Gall pwysau o'r fath arwain at gostau ychwanegol a chael effaith andwyol ar barhad y gofal. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol, cyfraniadau cyflogwyr a chostau pensiwn, yn ogystal â heriau ehangach sy'n deillio o gyfraddau trosiant uchel, dibyniaeth ar staff asiantaeth a'r angen i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu i ddarparu gofal cynyddol gymhleth.

Er bod cyswllt annatod rhwng pwysau gweithlu a chynaliadwyedd ehangach y sector, nid dyna'r unig heriau a wynebir, felly bwriedir hefyd i'r cyllid ychwanegol hwn helpu

awdurdodau lleol i ymateb i bwysau ar wasanaethau a bod mewn sefyllfa well i reoli galwadau annisgwyl neu gynyddol. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ganolbwyntio'n fwy ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae'n cydnabod galw awdurdodau lleol am 'gyllido dwbl ar gyfer buddsoddi' er mwyn cefnogi mwy o bwyslais ar waith ataliol, wrth gyflwyno darpariaeth bresennol o wasanaethau.

Rydym wedi cael adroddiadau dros dro ar gyfer 2019-20 yn nodi sut gwnaeth awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau gwahanol ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiadau canol blwyddyn yn dangos bod awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol, er enghraifft:

- Mae 11 o awdurdodau lleol wedi defnyddio cyfran o'u cyllid i gynyddu'r cyflogeion ym mhob rhan o'r sector. Er enghraifft, defnyddiodd Rhondda Cynon Taf y cyllid i dargedu cynnydd a anelir at ymrwymiad y Cyflog Byw Sylfaen ar gyfer darparwyr gofal cartref allanol y Cyngor.
- Mae naw awdurdod lleol wedi defnyddio'r cyllid i gefnogi Gwasanaethau Oedolion a Phobl Hŷn, yn benodol, lleoliadau cartrefi preswyl. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Penfro wedi defnyddio'r grant i wrthbwyso pwysau cynyddol o fewn y cyllidebau tymor byr ar gyfer gofal seibiant.
- Mae wyth awdurdod lleol wedi defnyddio'r cyllid i gefnogi gofal cartref ar gyfer pobl hŷn.
- Mae un awdurdod lleol wedi cyllido cymorth ar gyfer cynnal parhad busnes ei wasanaeth craidd y tu allan i oriau.

Rydym wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ynghylch sut y gellir defnyddio'r cyllid grant mewn perthynas â phwysau gweithlu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cynaliadwy, a hynny am mai'r awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion lleol a sut i gael y budd mwyaf posibl o'r cyllid.

Er mwyn sicrhau bod cyrraedd y cyllid hwn mor eang â phosibl, mae'r trefniadau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r grant yn rhai ysgafn. Fodd bynnag, rydym wedi gosod paramedrau lefel uchel ar gyfer y ffordd y dylid gwario'r cyllid a byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol gadarnhau sut y maent yn bwriadu defnyddio'r cyllid cyn bod y taliadau'n cael eu gwneud.

Dim ond un rhan o'n cymorth ehangach i'r sector yw'r cyllid grant hwn, sy'n cynnwys, er enghraifft, cyllido ymgyrch Gofalwn.cymru Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n anelu at ddenu mwy o bobl i weithio yn y sector a hyrwyddo proffesiynoldeb y sector drwy gofrestru'r gweithlu.

**Ystyried a yw'r dyraniad o £2.3 miliwn fel grant penodol i'r Gwasanaeth Mabwysiadu'n ddigonol, a sut y bydd yr arian ychwanegol hwn yn arwain at ganlyniadau gwell?**

Mae'r buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid y cymorth mabwysiadu a gynigir yng Nghymru ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio'n greadigol i ddarparu arian cyfatebol i adnoddau eraill er mwyn sicrhau bod eu cyrraedd mor eang â phosibl. Bwriedir y bydd y 'Cynnig Craidd' hwn yn

- grymuso teuluoedd sy'n mabwysiadu ar y dechrau a chefnogi eu dyddiau cynnar er mwyn annog teuluoedd iach a hyderus;
- rhoi gwybodaeth, cyngor neu gymorth effeithiol pa bryd bynnag y bydd teuluoedd eu hangen mewn ffordd amserol fel bod unrhyw broblemau sy'n codi yn llai tebygol o waethygu'n broblemau mwy difrifol;

- darparu cymorth parhaus neu broses ailfynediad hawdd at wasanaethau lle y bo eu hangen.

Mae gwasanaethau newydd ac arloesol yn cael eu datblygu drwy'r cyllid hwn, llawer mewn partneriaeth ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru ar gyfer, er enghraifft TESSA, Mabwysiadu gyda'n Gilydd a Connected (gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu).

- Mae TESSA (Gwasanaethau Therapi, Addysg a Chymorth ym maes Mabwysiadu), sef gwasanaeth ledled y DU a ariennir gan y Loteri, yn cael ei gyflwyno ledled Cymru; gan ddefnyddio cyllid cyfatebol o'r buddsoddiad hwn i gyrraedd mwy o bobl yng Nghymru. Yn seiliedig ar gyflwyno drwy bartneriad sy'n rhieni â thâl (mabwysiadwyr profiadol a medrus) mae'n cynnwys asesiad seicoleg arbenigol a chwrs 6 wythnos (yn seiliedig ar wasanaeth llwyddiannus a ddarperir gan un Bwrdd Iechyd yng Nghymru), ynghyd â chyfle i fanteisio ar wasanaethau cymorth eraill a argymhellir. Mae ei gost yn parhau i fod yn isel, mae tipyn o ddiddordeb cynnar ynddo a chaiff ei werthuso'n academaidd. Pan fydd yn gwbl weithredol bydd yn darparu gwasanaethau i tua 200 o deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol. Dechreuodd y gwasanaeth dderbyn atgyfeiriadau ym mis Tachwedd ac mae 18 o deuluoedd eisoes yn ei ddefnyddio.

- Y gwasanaeth 'Connected' yw'r unig adnodd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru (gan ddisodli Talk Adoption). Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau ei fod ar gael ym mhob rhan o Gymru a chaiff ei ategu hefyd gan wasanaeth cyngor a gwybodaeth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu mewn ffyrdd tebyg i'r gwasanaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd heb eu mabwysiadu, ac mae cynllun llysgenhadon oedolion ifanc sydd wedi'u mabwysiadu'n fodd i ymgynghori, ymgysylltu a hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu. Cynigiwyd i 100 o blant a phobl ifanc drosglwyddo i wasanaeth newydd ac roedd 70 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ac yn cael gwasanaeth wrth iddo dyfu. Mae swyddog datblygu cenedlaethol wedi cael ei benodi yn ogystal â 4 allan o 5 swyddog rhanbarthol. Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer cynnig cyngor a gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu wedi dechrau, ac mae cynllun llysgenhadon oedolion ifanc sydd wedi'u mabwysiadu wedi dechrau hefyd, ac maent wedi recriwtio 3 hyd yma.

Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i newid a gwella arferion ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi comisiynu AFA Cymru i weithio gyda'r sector i ddatblygu'r dulliau arfer gorau o ran mynd i'r afael â'r canlynol:

- lleoli plant a darparu cymorth cynnar (gan gynnwys Mabwysiadu gyda'n Gilydd)
- cyswllt sy'n cael ei hwyluso'n effeithiol gan wasanaethau / asiantaethau rhanbarthol;
- asesu, cynllunio ac adolygu cymorth mabwysiadu ar gyfer pob plentyn;
- gweithio gyda rhieni biolegol gan gynnwys cysylltiadau â phrosiectau Adlewyrchu.

**Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r gwaith o fodloni'r gofynion a nodir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei fonitro'n ofalus ac er mwyn sicrhau y gall effaith y Ddeddf ar ganlyniadau llesiant y bobl sydd angen gofal a chymorth, a'r gofalwyr sydd angen cymorth, gael ei monitro.

Yn gyntaf, mae gwerthusiad ffurfiol o'r Ddeddf wedi cael ei gomisiynu ac yn cael ei arwain gan Brifysgol De Cymru. Mae'r gwerthusiad ffurfiol yn archwilio dau faes - gweithrediad y Ddeddf ac effaith y Ddeddf. Gwneir gwaith maes ar hyn o bryd o ran gweithrediad y Ddeddf a disgwylir adroddiad cychwynnol ar hyn gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2020. Bydd yr adroddiad llawn a therfynol a fydd yn cwmpasu gweithrediad ac effaith y Ddeddf yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd 2021.

Yn ail, mae'r prosiect Mesur y Mynydd bellach yn ei ail flwyddyn ac mae'n archwilio profiadau pbobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth yn fanwl. Mae Mesur y Mynydd yn cael ei gyflwyno gan gonsortiwm o randdeiliaid, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru a SYG.  Mae prosiect Mesur y Mynydd yn defnyddio technoleg SenseMaker fel y gall pobl a gofalwyr rannu eu profiadau yn fanwl gan alluogi amrywiaeth eang o straeon i gael eu casglu a'u dadansoddi. Mae Mesur y Mynydd hefyd yn defnyddio methodolegau Rheithgor Dinasyddion sydd, unwaith eto, yn ein galluogi i graffu ar brofiadau pobl o'r Ddeddf yn fanwl.  Cyhoeddwyd adroddiad cam 1 Mesur y Mynydd ym mis Ebrill 2019. Cyflawnir cam 2 y prosiect ar hyn o bryd a disgwylir i ail adroddiad Mesur y Mynydd a'i adroddiad terfynol gael eu cyhoeddi ar ddiwedd 2020.

Yn drydydd ac yn olaf, bydd Fframwaith Perfformiad a Gwelliant yn cael ei lansio ar 1 Ebrill 2020 a fydd yn newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn monitro eu perfformiad mewn perthynas â'r Ddeddf. Bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu amrywiaeth o ddata a fydd yn cynnwys data meintiol a data ansoddol, a bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ar drywydd gwaith ymchwil a thystiolaeth a'u defnyddio. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddeall profiadau pobl o'r Ddeddf yn well a mesur yn gywir sut mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at wella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a gofalwyr sydd angen cymorth.  Bydd hefyd yn cynyddu ansawdd a chysondeb y data a gesglir gan awdurdodau lleol.

Yours sincerely,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Community Housing Cymru

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First



Dear Equality, Local Government and Communities Committee Members,

## Welsh Government budget 2020/21: Housing Support Grant

In early December Cymorth Cymru, Community Housing Cymru and Welsh Women's Aid published our joint report 'Housing Matters' which called for the Housing Support Grant to be increased in the Welsh Government's budget for 2020/21.

The Housing Support Grant is the Welsh Government's principal funding stream for preventing homelessness and supporting independent living. Every year it helps more than 60,000 people to avoid homelessness, escape violence against women, domestic abuse and sexual violence, live in their own homes and thrive in their communities.

**As you will be aware, the Welsh Government's draft budget revealed that the Housing Support Grant has been allocated the same amount of funding as last year.**

Local authorities, third sector support providers and social landlords have worked incredibly hard over the past few years to make savings within their services. Costs of delivery have grown, mainly due to inflation and complexity of demand, but funding has not. **In fact, the budget has faced real terms cuts of over £37million since 2012**. This is set against a backdrop of increased homelessness and people presenting with a more challenging combination of co-occurring issues such mental health problems, substance use problems and the impact of trauma.

Our members are telling us that services have now reached a tipping point - and a cash flat settlement in 2020/21 will not be enough to achieve the shared ambitions of Welsh Government, landlords and support providers.

**In your scrutiny of the draft budget we urge you to raise this issue with Ministers and advocate for additional funding from the UK Government's budget in March to be allocated to the Housing Support Grant.** This will enable services to be better equipped to prevent homelessness and support more people to live safely and independently in their own homes. We have really appreciated the support shown by members of all parties in recent years and hope that you can continue to do so through committee scrutiny, oral questions, letters to Ministers and the draft budget debate on 4th February.

Please get in touch if you would like more information about the Housing Support Grant or services in your constituency/region. We would also be very happy to meet with you or your support staff to discuss this issue further.

Kind regards,

**Katie Dalton**
Director
Cymorth Cymru

**Stuart Ropke**
Chief Executive
Community Housing Cymru

**Eleri Butler**
Chief Executive
Welsh Women's Aid

**Download the Housing Matters report in English or in Welsh.**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon